CYFIAWNDER YR IFANC – Y CAMAU NESAF

CRYNODEB O'R YMATEBION
A
CHYNIGION Y LLYWODRAETH

CYNIGION AR GYFER CYFIAWNDER YR IFANC

Dyfyniad o '*Every Child Matters' – Next Steps* ym mhara 4.20

"Mae'r gwaith yr ydym yn bwriadu ei symud ymlaen o fewn y system Cyfiawnder yr Ifanc yn cydweddu gyda'r hyn a nodir yn *Every Child Matters*; y ddogfen sy'n cyd-fynd â dogfen *Cyfiawnder yr Ifanc – Y Camau Nesaf* a oedd yn amlygu'r materion oedd yn gysylltiedig â phobl ifanc a oedd, er gwaethaf ymdrechion i'w helpu, yn mynd ymlaen i droseddu. Lle byddant yn troseddu bydd y ffocws i'r bobl hynny fydd yn gweithio gyda hwynt yn parhau i fod ar atal troseddu a mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n sail i'r troseddu. Rydym yn bwriadu cael eglurder yn y gyfraith fel bod atal troseddu hefyd yn brif ddiben dedfrydu, ond byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r llysoedd hefyd roi ystyriaeth i amddiffyn y cyhoedd, lles, cosbi a gwneud iawn wrth benderfynu ar ddedfryd addas ar gyfer troseddwr ifanc. Byddwn yn gwneud defnydd llawnach o raglenni rhieni, gyda theuluoedd troseddwyr ifanc a throseddwyr ifanc sydd yn rhieni eu hunain. Rydym hefyd yn bwriadu cymryd camau i helpu cymaint â phosib o ddiffynyddion ifanc a'u gofalwyr i ddeall a pharatoi ar gyfer eu profiad yn y llys. Byddwn yn gwneud dedfrydu yn fwy syml a hyblyg, gan dynnu ar restr hir o ymyriadau y gellir eu dewis i gwrdd ag angen unigol. Bydd y Gorchymyn Goruchwylio a Gwyliadwriaeth Dwys newydd yn darparu dewis amgen cadarn i'r ddalfa, a fydd yn gam terfynol ar gyfer troseddwyr ifanc mwyaf difrifol neu barhaus yn unig. Gyda chymorth y gwasanaethau plant eraill, bydd y system Cyfiawnder yr Ifanc yn canolbwyntio'n benodol ar helpu troseddwyr ifanc i ailymwneud ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y gymuned."

Mae'r canlynol yn Atodiad B i *'Every Child matters' – Next Steps.* Mae'n crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd i bapur ymgynghori Medi 2003 *Cyfiawnder yr Ifanc – Y Camau Nesaf*, sef dogfen i gyd-fynd â'r Papur Gwyrdd plant *Every Child Matters*. Mae hefyd yn nodi cynigion y Llywodraeth ar gyfer Cyfiawnder yr Ifanc yn dilyn yr ymgynghoriad.

4 Mawrth 2004

YMATEB I'R YMGYNGHORIAD AR *CYFIAWNDER YR IFANC – Y CAMAU NESAF*

Canfyddiadau a Ddaeth i'r Amlwg

1. Yn gyffredinol roedd yr ymatebion yn gefnogol i'r dull gweithredu cyffredinol a fabwysiadwyd gan *Cyfiawnder yr Ifanc – Y Camau Nesaf* a rhoddwyd croeso penodol i'r cysyniad teulu-cyfan gydag ymwneud gan y gymuned leol. Roedd llawer o ymatebwyr hefyd yn cydnabod y byddai'r cynigion yn help i atal y defnydd o ddedfrydau yn y ddalfa ar gyfer plant a phobl ifanc. Gwelwyd rhai o'r cynigion fel newid cyfeiriad yn y ddarpariaeth o atebion credadwy yn y gymuned yn lle'r ddalfa.

2. Cafwyd peth beirniadaeth bod *Cyfiawnder yr Ifanc – Y Camau Nesaf* wedi ei chyhoeddi ar wahân i *Every Child Matters*. Ystyriwyd bod y Llywodraeth yn gweld troseddwyr ifanc yn wahanol i blant ag anghenion cymdeithasol eraill. Credai llawer o'r ymatebwyr y dylai lles y plentyn fod yn rhan annatod o'r System Cyfiawnder yr Ifanc ac y dylid cymryd camau i sicrhau cydymffurfiad llawn gyda Chytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC). Ysgrifennodd un mudiad: *"Mae plant sydd mewn trafferth yn haeddu'r un gofal gan yr awdurdodau a'r un gwasanaeth a ddarperir i blant eraill sydd mewn angen. Mae plant sy'n byw mewn carchardai yn parhau i fod yn blant. Roedd yn siomedig gweld dogfen ar wahân yn cael ei chyhoeddi."*

3. Ystyriwyd bod llawer o'r cynigion yn welliannau "synnwyr cyffredin" i'r system bresennol, er bod ymatebwyr yn tynnu sylw at y ffaith y byddai angen adnoddau ychwanegol i weithredu'r cynigion.

4. Yn gyfochrog â *Cyfiawnder yr Ifanc – Y Camau Nesaf*, ac fel rhan o'r un broses ymgynghori, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi taflen *Atal Troseddau Ymhlith Ieuenctid – rhowch eich sylwadau i ni* er mwyn casglu barn plant a phobl ifanc. Argraffwyd 50,000 o daflenni yn Saesneg a 5,000 yn Gymraeg. Cafodd chwe adran a chwestiynau'r daflen eu cynnwys hefyd ar chwech o wefannau poblogaidd i blant a phobl ifanc. Dychwelwyd 1,973 o daflenni wedi'u cwblhau ac fe gwblhawyd 5,887 o arolygon ar-lein, gan wneud cyfanswm o 7,860 o ymatebion oddi wrth blant a phobl ifanc.

5. Isod nodir y sylwadau a dderbyniwyd ar y cynigion penodol o dan y themâu amrywiol oddi wrth blant a phobl ifanc:

Ymyrraeth cyn-achos llys

6. Roedd ymatebwyr yn gadarnhaol am y Cynllun Rhybudd Terfynol cyfredol a chafwyd awgrymiadau gan rai y byddai'n wel gadael i'r diwygiadau ennill eu plwyf cyn gwneud newidiadau pellach. Er hynny roedd yno beth cefnogaeth hefyd i ganfod ffyrdd o ymestyn ymyrraeth cyn-achos llys. Ysgrifennodd un mudiad *"Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth y Llywodraeth bod dargyfeirio yn ddull gweithredu cadarnhaol i ddelio â phlant a phobl ifanc sy'n troseddu ac rydym yn llwyr gefnogol i ddatblygu'r cynlluniau dargyfeirio ymhellach."*

7. Ar yr un pryd, rhybuddiodd llawer yn erbyn mynd yn ôl at unrhyw beth tebyg i ailadrodd rhybudd. Cafwyd awgrym y dylid datblygu rhyw ffurf ar baneli cymunedol heb yr angen am unrhyw waredu Cyfiawnder yr Ifanc.

Strwythur ac egwyddorion dedfrydu cyffredinol

8. Roedd amryw o fudiadau plant a rhai Timau Troseddu Ieuenctid o'r farn y dylai lles fod yn greiddiol i'r meddylfryd wrth benderfynu dedfryd. Roedd yno gefnogaeth sylweddol, fodd bynnag, i wneud "atal troseddu" yn ddiben ar gyfer dedfrydu ar yr amod bod les yn cael ei gynnwys yn y rhestr o ystyriaethau eraill. Credai rhai nad oedd y cynnig fel y'i nodwyd yn *Cyfiawnder yr Ifanc – Y Camau Nesaf* yn unol â'r UNCRC. Cafwyd un awgrym y dylai lysoedd orfod defnyddio'r rhestr wirio lles o dan Ddeddf Plant 1989 wrth wneud eu penderfyniadau dedfrydu ar gyfer plant a phobl ifanc.

9. Roedd barn pobl ifanc ar yr hyn ddylai helpu llys i benderfynu pa gosb i'w rhoi i droseddwr ifanc, fel a ganlyn:
   - Ei atal rhag troseddu **5978**
   - Ei gadw'n ddiogel ac iach **1518**
   - Rhoi boddhad i ddioddefwr y drosedd **1031**

Teuluoedd a chymunedau

10. Cafwyd llawer o gefnogaeth i'r cynigion ar gyfer rhieni ond hefyd cafwyd ffafriaeth gyffredinol i gadw rhaglenni rhieni mor wirfoddol â phosib. Teimlwyd bod hynny o gymorth i annog cynnwys y ddau riant pan fo'r plentyn yn troseddu, ond y byddai angen cymryd gofal mewn achosion lle mae'r tad yn cam-drin o fewn y teulu. Cafwyd cefnogaeth hefyd i wneud defnydd dethol o Gynadleddau Grŵp Teulu ar y cyd â rhaglenni rhieni ac ymyriadau eraill. Ar y thema gyffredinol, ysgrifennodd un ymatebydd *"Mae'r gwaith gyda rhieni wedi bod yn un o'r ymyriadau mwyaf effeithiol ac rydym yn croesawu unrhyw broses i ehangu hyn."*

Plismona, trefn gyhoeddus a llysoedd

11. Rhoddwyd croeso cyffredinol i fwy o gefnogaeth ar gyfer diffynyddion ifanc a theuluoedd i ddeall y broses Cyfiawnder yr Ifanc yn well. Roedd mwyafrif llethol y bobl ifanc yn ffafrio fersiwn fideo o'r pecyn gwybodaeth ar gyfer diffynnydd ifanc, wedi ei gyflwyno gan weithiwr arbennig. Roedd fersiynau DVD a CD-ROM hefyd yn boblogaidd, yn ogystal â gwefan rhyngweithiol gyda theithiau rhithwir. Roedd llysoedd ymarfer, llyfrau a thaflenni hefyd yn boblogaidd, ac roedd nifer o'r ymatebwyr yn ffafrio cael arweiniad gan gyn-droseddwyr. Roedd llawer o blant a phobl ifanc hefyd yn teimlo y dylid dysgu' am y drefn gyfreithiol mewn ysgolion fel rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol: "*Mae ysgolion yn dweud wrthym am gyffuriau felly pam na allan nhw sôn wrthym hefyd am lysoedd, GBH a dwyn?*"

12. Roedd barn pobl ifanc ar y materion hyn fel a ganlyn:
    Ydych chi'n credu bod y pecyn gwybodaeth yn ffordd dda o egluro i bobl ifanc yr hyn fydd yn digwydd yn y llys?

Ydw	-	**7408**
Nac ydw	-	**1270**

    Ydych chi'n credu bod cael gweithiwr arbennig ar gyfer pobl ifanc yn y llys yn syniad da?

Ydw	-	**4223**
Nac ydw	-	**1004**

13. Roedd amryw o ymatebwyr yn gefnogol i'r syniad o farnwyr arbenigol. Er hynny tynnodd cynrychiolydd y barnwyr sylw at y ffaith y byddai “dynodi” barnwyr ymhellach yn ei gwneud yn anodd darparu barnwyr ar yr adeg iawn ym mhob ardal i wrando achosion lle'r oedd diffynnydd yn blentyn, gan arwain at oedi os nad oedd barnwr addas ar gael. Awgrymwyd yn hytrach y dylai pob barnwr dderbyn hyfforddiant ychwanegol ar gyfer delio ag achosion lle'r oedd diffynnydd yn blentyn neu'n berson ifanc.

- A ddylid dewis a hyfforddi barnwyr yn arbennig ar gyfer pobl ifanc i ddelio a throseddau pobl ifanc?

Dylid	-	**5680**
Na ddylid	-	**1040**

- A fyddai'n well gwario'r arian a neilltuir ar gyfer hyfforddi barnwyr ar rywbeth arall?

Byddai	-	**897**
Na fyddai	-	**993**

14. Ar fater a fyddai'n well gwario'r arian a neilltuir ar gyfer hyfforddi barnwyr ar rywbeth arall, teimlai'r mwyafrif o bobl ifanc y byddai barnwyr wedi eu hyfforddi'n arbennig yn helpu dealltwriaeth pobl ifanc o'r llys. Roedd eu barn yn amrywio rhwng gostwng oed ar gyfer dedfrydau carchar ac adeiladu carchardai newydd, i gael barnwyr i dreulio nifer ro ddyddiau gyda phobl ifanc a hefyd hyfforddi barnwyr iau. Roedd yr ymatebion yn cynnwys sylwadau fel “*Dylai mwy o weithgareddau fod ar gael i bobl ifanc er mwyn eu tynnu oddi ar y strydoedd a pheidio cael eu denu i ymhél â thor-cyfraith.*”

Remand

15. Rhoddwyd croeso cynnes i'r cynnig i ddarparu mwy o lety mechnïaeth ar gyfer pobl ifanc i alluogi llysoedd i fod yn hyderus gyda phenderfyniadau mechnïaeth a lleihau cadw yn y ddalfa, er bod amryw o ymatebwyr yn ffafrio atebion amgen na hosteli mechnïaeth. Dadleuai rhai ymatebwyr hefyd y dylai'r Llywodraeth ymdrin â mater unigolion 17 oed sy'n cael eu trin fel oedolion yn hytrach na phobl ifanc ar gyfer dibenion mechnïaeth a chadw yn y ddalfa.

Dedfrydu yn y gymuned

16. Rhoddwyd cefnogaeth gyffredinol i estyniad cyfyngedig o Orchmynion Cyfeirio, ond gyda rhybudd na ddylid eu defnyddio os oedd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog.

17. Yn gyffredinol roedd ymatebwyr yn gefnogol i'r syniad o symleiddio dedfrydu ieuenctid. Mynegodd ynadon bryder, fodd bynnag, ac roeddent yn teimlo y byddai cael un ddedfryd gymunedol yn unig yn lleihau effaith cael cosbau oedd yn cynyddu mewn difrifoldeb. Dadleuwyd y byddai'n anoddach i aml-droseddwyr ddeall bod Gorchymyn diweddarach yn wahanol neu'n fwy difrifol na'r Gorchymyn cyntaf. Credai rhai bod yno berygl o gamddealltwriaeth a defnydd annigonol o'r ddedfryd, gan arwain at gynnydd mewn cadw yn y ddalfa.

18. Rhoddwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cysyniad o restr ddewis o ymyriadau i'w defnyddio fel oedd yn briodol ar gyfer troseddwr unigol, ond nid oedd ymatebwyr yn hoff o osod cyfyngiad ar nifer yr ymyriadau y gellid eu defnyddio mewn un ddedfryd. Roedd yno

beth cefnogaeth i gadw dedfrydau oedolion ar gyfer unigolion 16 ac 17 oed ond, os oeddent i'w hepgor, byddai'n bwysig cadw mewnbwn y gwasanaeth prawf – yn cynnwys adnoddau digonol – i'r system Cyfiawnder yr Ifanc oherwydd profiad proffesiynol y gwasanaeth gyda phobl ifanc hŷn. Ysgrifennodd un mudiad *"Mae caniatáu llysoedd i ddewis amrywiaeth o ymyriadau o restr ddewis yn ffordd dda o sicrhau bod barnwyr yn gallu teilwrio Cynllun Gweithredu i'r troseddwr unigol a'i anghenion ef neu hi."*

19. Roedd ymatebwyr yn gefnogol iawn i gynnwys elfen o wneud iawn am y trosedd o fewn y ddedfryd, ond tynnwyd sylw at y ffaith y dylai ymwneud y dioddefwr fod yn benderfyniad y dioddefwr bob tro ac na ddylid rhoi unrhyw bwysau arnynt i gymryd rhan.

20. Gofynnwyd i bobl ifanc am eu barn pe bai ond pedwar dewis o ddedfryd mewn enghraifft lle'r oedd y troseddwr yn ymddangos gerbron llys am y tro cyntaf a'i fod yn euog o dwyll cerdyn credyd. Y dewisiadau a gynigiwyd oedd: a) mae'n cael mynd yn rhydd heb unrhyw gosb, b) mae'n rhaid iddo dalu dirwy, c) mae grŵp cymunedol a ddewiswyd yn arbennig yn penderfynu'r gosb, a d) mae'n cael 2 neu 3 cosb lai.
A yw'r pedwar dewis yma'n ddigon i'r llys?

Ydynt	-	**5982**
Nac ydynt	-	**2613**

21. Pan ofynnwyd iddynt beth arall sy'n bwysig wrth gosbi pobl ifanc, roedd ymatebion aml yn cynnwys: natur y trosedd, oed, cosb gyfiawn, cynnydd mewn monitro, gwneud iawn, ailsefydlu, amgylchiadau cyflawni'r trosedd, diogelwch y cyhoedd, pwysau gan gyfoedion a theulu, ac ail gyfle. Mynegodd nifer o blant a phobl ifanc safbwyntiau megis: "*Gwneud yn siŵr bod y person ifanc yn gwybod a deall ei fod wedi cyflawni trosedd.*"

22. Mynegwyd cefnogaeth i'r cynigion ar drefniadau maethu ond tynnwyd sylw gan rai ymatebwyr at yr anawsterau o ganfod rhieni maeth addas. Mynegwyd pryder y gallai'r System Cyfiawnder yr Ifanc "gipio" lleoliadau maethu o ansawdd da ar gyfer troseddwyr ifanc gan adael gwasanaethau cymdeithasol ag anawsterau ar gyfer leoli plant eraill oedd mewn angen. Yn amodol ar oresgyn yr anhawster yma, barnwyd bod maethu yn gynnig cadarnhaol.

23. Roedd atebion pobl ifanc i gwestiwn ynghylch ai syniad da oedd gwahanu troseddwyr oddi wrth eu teuluoedd, os oedd y teuluoedd hynny'n rheswm am eu hymwneud â thor-cyfraith, fel a ganlyn:

Oedd	-	**6091**
Nac oedd	-	**2462**

24. Yn gyffredinol roedd yr ymatebwyr i ddogfen *Cyfiawnder yr Ifanc – Y Camau Nesaf* yn gweld y cynigion ar gyfer Contractau Ymddygiad Plentyn yn ddiangen, gan fod plant sy'n dilyn dedfryd a osodwyd gan lys eisoes yn arwyddo contract ymddygiad gyda'r Tîm Troseddu Ieuenctid. Dywedodd llawer beth bynnag na ellid gorfodi unrhyw dor-cytundeb, felly nid oedd diben dilyn y trywydd hynny ymhellach.

Dedfrydau dwysach, gan gynnwys y ddalfa

25. Mynegwyd llawer o gefnogaeth i Raglenni Goruchwylio a Gwyliadwriaeth Ddwys, yn enwedig wrth helpu troseddwyr ifanc i beidio cael eu cadw yn y ddalfa. Er hynny,

teimlai amryw o ymatebwyr bod y cynnig a amlinellwyd yn *Cyfiawnder yr Ifanc – Y Camau Nesaf* ar gyfer un ddedfryd, naill ai goruchwyliaeth neu'r ddalfa, yn ddryslyd i bawb, yn cynnwys y troseddwr. Cododd rhai amheuon ynghylch y defnydd o'r ddalfa ar gyfer pobl ifanc o dan 18 oed ac eithrio mewn achosion eithafol iawn.

26. Roedd nifer o fudiadau yn anghytuno â'r cynnig i ddileu'r meini prawf troseddu parhaus ar gyfer cadw plant 12-14 oed yn y ddalfa, ond croesawyd y gostyngiad i uchafswm o 12 mis ar gyfer y grŵp oedran hwnnw. Roedd rhai ymatebwyr yn amcangyfrif y byddai'n cynyddu niferoedd cyffredinol o blant a gedwir yn y ddalfa. Awgrymodd rhai hefyd y dylai'r Llywodraeth ostwng lleiafswm hyd y Gorchymyn Cadw a Hyfforddi (DTO), a oedd ar hyn o bryd yn 2 fis yn y ddalfa gyda 2 fis ar ôl hynny yn y gymuned. Dywedodd eraill, fodd bynnag bod hyd yn oed 2 fis mewn sefydliad diogel yn gyfnod rhy fyr i fod o ddefnydd i'r troseddwr. Dadleuai rhai ymatebwyr nad oedd Sefydliadau Troseddwr Ifanc y Gwasanaeth Carchardai yn addas ar gyfer pobl ifanc a chroesawyd cyfeiriadau at y gwaith parhaus i symud merched a bechgyn diamddiffyn i lety gwell.

27. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r math newydd o unedau, yn cynnwys amodau agored a rhannol-gaeth, er bod rhai wedi tynnu sylw at y ffaith bod angen yr unedau hyn ar ardaloedd llai poblog yn ogystal â lleoliadau agos i ganolfannau poblogaeth sylweddol.

28. Roedd atebion pobl ifanc i'r cwestiynau ynghylch opsiynau dedfrydu ar gyfer unigolyn ifanc 17 oed sydd wedi cyflawni troseddau treisiol ac sydd o flaen llys unwaith eto ar gyhuddiad o wneud niwed difrifol i rywun arall, fel a ganlyn:
    - A yw'n syniad da cadw'r unigolyn yma allan o'r carchar os yw rhywun yn cadw llygad arno?

      Ydyw - **5313**
      Nac ydyw - **3177**
    - A yw hyn yn deg i'r dioddefwyr?

      Ydyw - **3572**
      Nac ydyw - **3896**
    - A yw deufis o garchar yn:

      rhy fyr - **3654**
      rhy hir - **998**
      addas - **3817**

29. Roedd eu safbwynt ar ba gosbau eraill y dylid caniatáu i'r llysoedd eu dewis yn cynnwys mwy o ddedfrydu yn y gymuned gyda mentoriaid dynodedig, tagio, a gwaith cymunedol adeiladol. Roedd yr ymatebion hefyd yn cynnwys cosbau fel *boot camps*, dedfryd fer yn y ddalfa, a mynychu "ysgolion arbennig". Roedd rhai sylwadau yn awgrymu tynnu breintiau yn ôl a gweithredu cosbau fyddai'n codi cywilydd ar y troseddwr: *"Yn lle rhoi £10 o ddirwy dylai'r barnwr gymryd eu peiriant playstation oddi arnynt, fe fyddai hynny'n cael llawr mwy o effaith.*"

Staff a threfniadaeth

30. Yn gyffredinol roedd yna wahaniaeth barn ynghylch a ddylid integreiddio Timau Troseddu Ieuenctid fel rhan o'r Ymddiriedolaethau Plant newydd. Roedd rhai yn cefnogi'r farn y dylent ymuno â'r Ymddiriedolaethau, ond dywedodd eraill y dylid cadw'r Timau Troseddu Ieuenctid yn y System Cyfiawnder Troseddol a gweithredu fel "pont" rhwng y gwasanaeth cyfiawnder troseddol a'r gwasanaethau plant. Credai rhai y dylai'r Llywodraeth osod cyfeiriad i'r dull gweithredu ond roedd eraill o'r farn y dylid defnyddio disgresiwn lleol.

31. Rhoddwyd croeso cyffredinol i'r awgrym i adolygu aelodaeth graidd Timau Troseddu Ieuenctid – ac awgrymodd amryw y dylid ychwanegu tai i'r tîm. Cafwyd cefnogaeth hefyd i'r cynigion ar gyfer hyfforddiant a chymwysterau staff, yn amodol ar ychwanegiad gan rai ymatebwyr y dylai'r hyfforddiant gynnwys safbwynt y dioddefwyr.

32. Awgrymodd rhai y dylai gweithwyr Timau Troseddu Ieuenctid ddod o dan Uned Gweithlu Plant y DfES, er nad oedd hynny'n cael cefnogaeth gyffredinol o bell ffordd. Mynegwyd pryder nad oedd digon o staff yn gyffredinol ym maes gwaith y plant.

Materion eraill na chafodd eu nodi yn *Cyfiawnder yr Ifanc – y Camau Nesaf* ond a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad

33. Manteisiodd rhai ymatebwyr ar y cyfle i leisio eu pryderon ar faterion na chafodd eu codi yn y papur ymgynghori. Y rhain oedd:

- Dylai'r Llywodraeth gymryd y cyfle i godi oed cyfrifoldeb troseddol.
- Yr unig ffordd i atal troseddu oedd sicrhau bod gwasanaethau lles ar gael, ond nid oedd hyn yn digwydd yn ymarferol bob tro.
- Dylai fod yn bosib gorfodi darpariaethau tor-cytundeb: fel arall nid oedd diben eu cael.
- Mae gan ddioddefwyr ifanc fynediad at gyswllt fideo i'r llys ond nid oedd hynny'n wir am ddiffynyddion ifanc; a dylid adolygu hyn.
- Mynegwyd sylw gan rai ymatebwyr bod argymhelliad Auld ar gryfhau 'r Llys Ieuenctid yn awgrym da a dylid ei weithredu.
- Dylid parchu'r trefniadau gwahanol yng Nghymru, yn enwedig y cyd-gysylltu gyda'r Partneriaethau Pobl Ifanc.

CYFIAWNDER YR IFANC : BETH FYDD YN DIGWYDD NESAF

1. Mae'r adran hon yn nodi pa benderfyniadau a wnaed gan y Llywodraeth yn dilyn yr ymgynghoriad yn *Cyfiawnder yr Ifanc – Y Camau Nesaf* a pha gamau a gymerir i roi'r penderfyniadau hyn ar waith. Bydd rhai ohonynt yn dibynnu ar adnoddau neu amser seneddol.

2. **Cyswllt gyda gwasanaethau plant eraill:** Mae plant a phobl ifanc sy'n cyflawni troseddau yn rhan o'r gymuned ehangach, ac mae llawer ohonynt wedi profi problemau am y rhan fwyaf o'u bywydau – er enghraifft mewn perthynas gyda'u teulu, addysg ac iechyd. Dyna pham fod *Every Child Matters* yn pwysleisio delio gyda phroblemau plant wrth iddynt ddod yn amlwg, ac mae rhaglenni ariannu helaeth yn cael eu rhedeg i gefnogi teuluoedd a gweithio gyda phobl ifanc sy'n wynebu risg uchel. Mae'r Llywodraeth am i'r system Cyfiawnder yr Ifanc gydweddu gyda'r gwaith yma trwy sicrhau ffocws arbennig ar y rheiny sydd, er gwaethaf pob ymdrech, yn dod yn droseddwyr yn eu harddegau – sy'n gwneud niwed nid yn unig i'w buddiannau eu hunain a buddiannau eu teuluoedd ond hefyd i'r gymuned ehangach. Mae ein dull gweithredu Cyfiawnder yr Ifanc felly yn canolbwyntio ar atal troseddu ond hefyd ar fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n sail i'r troseddu. Adlewyrchir hyn yn benodol gan yr hyn a ddywedwn isod am y dull gweithredu yng nghyswllt dedfrydu, sgiliau rhieni a mesurau teuluol, dedfrydau ehangach yn y gymuned wedi'u cefnogi gan ystod o weithgareddau a chyfleusterau, goruchwyliaeth ddwys i ddisodli mynd i'r ddalfa lle bynnag mae hynny'n bosib, gwela ansawdd y ddalfa lle mae ei hangen a chryfhau sgiliau staff a strwythurau lleol i gyflenwi gwasanaethau.

3. **Ymyrraeth cyn-achos llys:** Rydym wedi penderfynu peidio newid y fframwaith statudol presennol ar Cerydd a Rhybudd Terfynol oherwydd ei fod yn darparu mesurau cyflym, syml ac effeithiol ar gyfer methu cydymffurfio. Rydym yn bwriadu cymryd camau gweinyddol o sicrhau bod y cynllun yn cael ei ddefnyddio hyd yr eithaf as byddwn yn cyhoeddi arweiniad fel bod y rhesymau yn cael eu datgan mewn llys agored pryd bynnag na ddefnyddir y cynllun. Rydym hefyd yn bwriadu rhoi deddfwriaeth gerbron ar adeg addas i addasu Deddf Ailsefydlu Troseddwyr er mwyn sicrhau nad yw Cerydd a Rhybudd Terfynol yn ddyfynadwy i ddarpar gyflogwyr.

4. **Strwythur ac egwyddorion dedfrydu cyffredinol:** Rydym yn derbyn yn llwyr fod lles yn ystyriaeth bwysig pan fo'n ofynnol i lys wneud penderfyniad ar y ddedfryd addas i droseddwr ifanc. Ond credwn mai prif ddiben dedfryd a osodir gan lys ar ôl collfarnu unigolyn ifanc yn euog o drosedd ddylai fod ei atal rhag troseddu eto a byddwn yn deddfu i sicrhau eglurder ynglŷn â hyn mewn cyfraith. Bydd yn ofynnol hefyd i lysoedd ystyried ffactorau eraill yn cynnwys amddiffyn y cyhoedd, lles, cosbi a gwneud iawn. Byddai'r ymyriadau a ddefnyddir i helpu'r unigolyn ifanc i ddelio â'i ymddygiad troseddol yn cynnwys gweithgareddau a chefnogaeth a aseswyd fel rhai addas ar gyfer yr unigolyn dan sylw. Bydd y Cyngor Canllawiau Dedfrydu hefyd yn darparu arweiniad i'r llysoedd ar bobl ifanc. Ar ben hynny, byddwn yn cynnwys atal ymddygiad gwrthgymdeithasol yn nyletswyddau'r Bwrdd Cyfiawnder yr Ifanc a Thimau Troseddu Ieuenctid.

5. **Teuluoedd a chymunedau:** Byddwn yn hyrwyddo defnydd llawnach o fesurau ar gyfer rhieni, yn cynnwys Cynadledda Grŵp Teulu a therapi teulu, gan asiantaethau Cyfiawnder yr Ifanc a byddwn yn cyhoeddi arweiniad. Byddwn hefyd yn darparu rhaglenni bod yn rhiant ar gyfer troseddwyr ifanc sydd yn rhieni eu hunain. Rydym yn cydnabod bod rhai o'r troseddwyr hyn yn "anodd i'w cyrraedd" ac nad yw eu

hanghenion yn cael eu diwallu gan y rhaglenni presennol. Rydym yn bwriadu sefydlu cynadleddau grŵp teulu er mwyn hyrwyddo'r dechneg yma fel ffurf o gyfiawnder adferol.

6. **Plismona, trefn gyhoeddus a llysoedd:** Rydym yn bwriadu datblygu Pecyn Diffynnydd Ifanc i helpu pobl ifanc a'u rhieni neu ofalwyr i ddeall a pharatoi ar gyfer eu profiad yn y llys – er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth a derbyn cyfrifoldeb. Byddwn hefyd yn archwilio'r lle i gynnwys asiantaethau gwirfoddol wrth eu cefnogi cyn ac yn ystod y llys, a hyrwyddo ymhellach y defnydd o iaith mwy syml yn y llys. Rydym yn bwriadu trafod gyda'r Bwrdd Astudiaethau Barnwrol ffyrdd o gwrdd ag anghenion penodol diffynyddion ifanc trwy hyfforddi barnwyr llys y goron a chyda'r cyrff proffesiynol perthnasol gyda golwg ar hyfforddiant ar gyfer cyfreithwyr.

7. **Remandio:** Byddwn yn cyhoeddi arweiniad i sicrhau bod adroddiadau cyn-dedfrydu yn cael eu targedu'n dda yn gyson ac yn darparu gwybodaeth angenrheidiol i'r llysoedd. Rydym yn bwriadu darparu ystod ehangach o lety â chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc ar fechnïaeth neu sy'n dilyn dedfryd yn y gymuned. Rydym hefyd yn bwriadu annog defnydd o faethu ar remand ac ystyried sut i gynyddu'r lleoedd a ddarperir.

8. Rydym hefyd yn bwriadu deddfu i drin unigolion 17 oed fel pobl ifanc ar gyfer dibenion remand a mechnïaeth. Cynhelir ymgynghoriad ar wahân ar fater statws unigolyn 17 oed sy'n cael ei gyfweld gan yr heddlu o dan ddeddfwriaeth PACE.

9. **Dedfrydu yn y Gymuned:** Credwn ei bod yn bwysig i'r opsiynau dedfrydu fod yn symlach a mwy hyblyg. Bydd y Gorchymyn Gwneud Iawn a'r Gorchymyn Cyfeirio yn parhau â'u rôl unigryw ond fel arall byddwn yn deddfu i gyflwyno dedfryd generig ar gyfer pobl ifanc yn y gymuned gyda rhestr eang o ymyriadau. Bydd y Gorchymyn Ailsefydlu'r Ifanc newydd yn disodli'r wyth dedfryd yn y gymuned bresennol.

10. Bydd y Gorchymyn Presenoldeb Ieuenctid yn cael ei gyfuno gyda'r ddedfryd newydd yma. Rydym yn bwriadu datganoli cyfrifoldeb am y canolfannau ieuenctid presennol i'r Timau Troseddu Ieuenctid a byddant yn gweithredu fel **Canolfannau Cyfiawnder yr Ifanc** er mwyn darparu ystod ehangach o weithgareddau i gefnogi'r ddedfryd – yn cynnwys cwnsela, chwaraeon, addysg (sgiliau sylfaenol a sgiliau bywyd), hyfforddiant, cyflogaeth a gwasanaeth yn y gymuned.

11. Trwy addasu ein cynnig gwreiddiol ar gyfer Contractau Ymddygiad Plentyn, byddwn yn adeiladu ar lwyddiant **Contractau Ymddygiad Derbyniol** ac yn annog eu defnydd gyda gofynion cadarnhaol fel rhan o waith ymyrraeth buan gan Paneli Cefnogaeth a Chynhwysoldeb yr Ifanc.

12. Rydym yn bwriadu gwella ystwythder Timau Troseddu Ieuenctid wrth gael mynediad at **lety** lleol ar gyfer diffynyddion ifanc ar fechnïaeth ac ar gyfer troseddwyr ifanc a gollfarnwyd trwy brynu lleoedd cadw mewn gwelyau argyfwng, bondiau a chyngor arbenigol neu wasanaethau lleoli. Mae angen iddynt allu gwneud defnydd llawn o lety presennol yn y gymuned – boed wedi eu darparu gan awdurdodau lleol, cymdeithasau tai neu landlordiaid preifat. Rydym hefyd yn bwriadu treialu maethu dwys fel dewis amgen i'r ddalfa ar gyfer troseddwyr ifanc a gollfarnwyd.

13. Byddwn yn sefydlu **gwasanaethau allymestyn** ar gyfer troseddwyr ifanc sy'n dilyn dedfrydau yn y gymuned yn cynnwys rhai sy'n gadael y ddalfa. Bydd y gwasanaethau hyn yn darparu cyngor a chymorth ymarferol i bobl ifanc er mwyn iddynt ailymwneud â'r

gwasanaethau statudol a gwasanaethau eraill yn y gymuned. Byddwn hefyd yn trafod gydag awdurdodau lleol er mwyn adnabod mwy o **brosiectau gwneud iawn** addas ar gyfer troseddwyr ifanc a fyddai'n gallu helpu cymunedau lleol.

14. Rydym yn cynnig ymestyniad cyfyngedig i **Orchmynion Cyfeirio** er mwyn eu caniatáu ar ymddangosiad diweddarach mewn llys, er enghraifft lle nad yw'r unigolyn ifanc wedi cael un o'r blaen neu wedi cael un o leiaf ddwy flynedd yn ôl.

15. **Dedfrydau dwysach, gan gynnwys y ddalfa:** Addasu ein cynigion i wneud y strwythur yn gliriach, byddwn yn deddfu i sefydlu **Gorchymyn Goruchwylio a Gwyliadwriaeth Dwys** newydd yn ogystal â dewis amgen cadarn i'r ddalfa ar gyfer troseddwyr parhaus neu fwy difrifol. Byddwn yn parhau gyda'r Gorchymyn Cadw a Hyfforddi (DTO) gan ddarparu hefyd er mwyn sicrhau na fydd angen i droseddwyr 12-14 oed fod yn droseddwyr parhaus neu fwy difrifol i gael DTO, ond gan ostwng y cyfnod uchafswm iddynt o 24 i 12 mis.

16. Yn ystod y rhan o'r DTO yn y gymuned byddwn yn rhoi ffocws arbennig ar weithgareddau i helpu troseddwyr ifanc i ailymwneud ag **addysg, hyfforddiant a chyflogaeth**. Ar ben hynny bydd swyddogion goruchwylio yn gallu dewis o'r un ystod o ymyriadau â'r rhai sydd ar gael i droseddwyr sy'n dilyn dedfryd yn y gymuned. Byddwn yn archwilio ymhellach sut i wella cydlynedd rhwng addysg yn y ddalfa ac yn y gymuned.

17. Byddwn yn parhau i weithio gyda Bwrdd Cyfiawnder yr Ifanc i wneud gwelliannau i'r ystâd diogel yr ifanc. Erbyn hyn rydym yn bwriadu datblygu unedau hunan-gynhwysol i wahanu merched o dan 18 oed oddi wrth ferched sy'n hŷn na 18 oed. Yn yr hir dymor, rydym yn bwriadu graddol ddatblygu unedau o fath newydd agored a rhannol-gaeth gerllaw prif ganolfannau poblogaeth.

18. Rydym yn bwriadu parhau â chyflwyniad treigl **Tystysgrif Proffesiynol mewn Arfer Effeithiol** ar gyfer gweithwyr Cyfiawnder yr Ifanc, gan ddarparu ar gyfer Gwobrau Mynediad ac ehangu'r Cynllun Prentisiaeth Fodern Uwch presennol.

19. Byddwn yn deddfu i gymryd pŵer i amrywio aelodaeth graidd **Timau Troseddu Ieuenctid** er mwyn rhoi'r hyblygrwydd i ni ddelio â newid mewn amgylchiadau. Byddwn hefyd yn ystyried ychwanegu tai i'r aelodaeth graidd. Byddai Timau Troseddu Ieuenctid yn gallu gweithredu hefyd o fewn Ymddiriedolaethau Plant ehangach lle mae hynny'n gam synhwyrol yn lleol.